# Y BIGWN

CYF. 35 RHIF 4 MEHEFIN 2023 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

# Digwyddiadau Mis Mai



Trip Copenhagen tud 2 a 3



Curadur Llawysgrifau Maredudd ap Huw ac Archifydd dan Hyfforddiant Ceri Evans o Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn casglu papurau R. M. (Bobi) Owen o Gaynor Morgan Rees. tud 3




Pwy sydd yn amhoblogaidd yn yr ardd? tud 4



Diwedd cyfnod tud 6








Copenhagen - hanes yn y golygyddol tud 3

Isod Bore Coffi Capel Pendref yn Eirianfa






Hanes ar dudalen 5

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifon Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifonjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Llywodraeth Cymru'

CYMRAEG


**Golygydd Mis Mehefin Morgan Cordiner**

# Gair gan y Golygydd

Tak Copenhagen!
Fy ymweliad cyntaf â Copenhagen-dim yr olaf gobeithio. Dyma brifddinas braf, glân a phobl gyfeillgar.
Rydym ni yn griw mawr o ffrindiau ysgol ac felly mae teithiau dramor yn gallu bod yn heriol iawn gyda 12 o ferched! Yn anffodus dim ond 6 ohonom oedd yn gallu mynd ar y dyddiad felly ffwrdd â'r chwech chwim.
Buom yn aros mewn hostel foethus tu hwnt oedd yn cynnwys cwrt pêl-droed, ystafell sinema, 2 far, bwyty a llawer mwy. Lle delfrydol a oedd wedi ei leoli yng nghanol y ddinas, tafliad carreg o'r gerddi enwog Tivoli.
Ar y diwrnod cyntaf buom yn crwydro'r ddinas a chael 'pastries' yn y becws hynaf yn Copenhagen. Roedd y dewis yn anhygoel. Wedi hyn aethom i'r tŵr uchaf i weld golygfeydd godidog.
Mae'r ffasiwn, crochenwaith a bywyd pobl Scandinavia 'hygge' mor syml, cartrefol a chlyd. Cawsom fwynhad mawr yn crwydro'r strydoedd â'r siopau. Dyma siop a oedd yn gwerthu crochenwaith arbennig.
Roedd rhaid ymweld a'r llefydd mwyaf adnabyddus o'r ddinas, er eu prysurdeb. Roedd y trafnidiaeth gyhoeddus yn wych a hawdd i'w ddefnyddio. Ond heb os, y ffordd orau o deithio oedd ar feic. Roedd posib rhentu beicau ym mhobman drwy ddefnyddio eich ffôn symudol a'r ffyrdd yn addas iawn ar eu cyfer.
Nyhavn oedd yr ardal fwyaf adnabyddus yn y ddinas oherwydd y pensaerinaeth draddodiadol ac mai hon oedd y stryd a oedd llawn bwytai drud wrth yr harbwr.
Cerflun enwog iawn yn Copenhagen yw'r 'Little Mermaid' er cof am Hans Christian Andersen a gladdwyd yn y ddinas.. Yn anffodus, roedd y cerflun yn bell o ganol y ddinas felly tipyn mwy o waith teithio (ar y beic) ato.
Roedd llawer o barciau a gerddi o fewn y ddinas. Un o'r parciau mwyaf enwog oedd 'The King's Garden'. Dyma lle roedd y Castell Rosenborg. Lle braf i grwydro a chael picnic.
Roedd y bwyd yn odidog gyda llawer o farchnadoedd yn gwerthu cynnyrch lleol 'Smorrebrod' sef brechdan agored, pastries a physgod a llawer mwy.
Ar ein diwrnod olaf cyn dal yr awyren am adref aethom i'r Tivoli Gardens. Roedd gerddi, marchnad bwyd a ffair yno. Roedd y gerddi yn brysur iawn hyd yn oed ar Ddydd Llun am 10 o'r gloch y bore.
Anodd iawn oedd gadael Copenhagen heb fynd ar daith gwch ar yr afon. Felly llogodd y 6 ohonom gwch fach. Dyma ffordd braf i orffen ein penwythnos hir yn y ddinas. Er prysurdeb yr afon roedd yn bersbectif gwahanol iawn o weld y ddinas arbennig hon.
Ble awn ni nesaf? Dyna oedd y cwestiwn a ofynwyd yn y maes awyr. Ymlaen i'r gwyliau nesaf….

Martha Cordiner

## Diogelu casgliad R.M. (Bobi) Owen i'r dyfodol

Yn drysor o Ddinbych ynddo'i hun, roedd Bobi Owen (1939-2019) yn ysgolfeistr a hanesydd lleol gyda gwybodaeth ddihysbydd o'r ardal leol. Mae ei ymchwil helaeth trwy ei fywyd yn sefyll fel tyst o'i diddordeb angerddol yn hanes lliwgar ei fro a'i phobl, fel y gwelir yn ei lyfrau.
Trwy ei fywyd casglodd Bobi nifer sylweddol o lythyrau a dogfennau yn ymwneud â Dinbych a'r ardal leol, yn ogystal ag amrywiaeth o lythyrau a dogfennau o bwysigrwydd cenedlaethol. Ymhlith y casgliad ceir nifer o ddogfennau yn ymwneud ag enwogion Cymru (a thu hwnt), yn aml yn llaw ei hun, fel Kate Roberts ac Idris Davies.
Mae'r dogfennau bellach wedi'u diogelu yn Amgueddfa Dinbych, gyda'r eitemau o bwys cenedlaethol wedi'u trosglwyddo i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ym Mai 2023 trwy law Gaynor Morgan Rees. Mae'n gysur meddwl y bydd y casgliad rhyfeddol hwn yn cael ei ddiogelu am flynyddoedd i ddod i eraill ei werthfawrogi; teyrnged deilwng i oes Bobi o waith ac ymchwil anhygoel.

**Dyddiad cau Y BIGWN mis Gorffennaf**
**Pob dim i gyrraedd e-bost**
**Y Bigwn - gwybod@ybigwn.cymru erbyn Mehefin 23**

## Eglwys Unedig Y Fron a'r Brwcws

Bore Sul Ebrill 23ain, braf oedd cael estyn croeso a diolch i'r Parch Ifor ap Gwilym, Abergele gydag Iona Edwards yn cyfeilio. Diolch i'r chwiorydd sydd wedi cyfrannu at waith y Genhadaeth ac yr oedd y cyfanswm ariannol yn £130. Mae ein diolch hefyd i Carys Jones a Richard Snelson am ofalu bod y casgliad yn cyrraedd Gwilym Williams Trysorydd y Fro.

Yr oeddym yn cydaddoli yn y Capel Mawr bore Sul Ebrill 30ain, oherwydd bod ein Gweinidog y Parch Andras Iago yn methu â bod gyda ni oherwydd ei fod yn dioddef o'r Cofid. Yr oedd Nerys Ann Roberts wedi paratoi gwasanaeth ar ein cyfer gyda rhai o'r aelodau yn cymryd rhan hefyd.

Bore Sul, Mai 7fed yr oedd yr oedfa Gymun dan ofal ein Gweinidog, ac fe wnaeth Gwiliym Williams ei groesawu a diolch iddo am ei wasanaeth. Yr organyddes oedd Eiri Jones.

Eleni cynhalwyd Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yn Lôn Swan, Bore Sul Mai 14eg, gydag aelodau o Gapel Mawr, Pendref, Lôn Swan yn cymeryd rhan. Fe wnaeth Rhianwen Williams o Gapel Unedig Fron a'r Brwcws gymryd rhan a Mr Arwel Roberts oedd yng ngofal y gwasanaeth. Diolch i Cheryl Williams am wneud yr holl drefniadau.

Bore Sul, Mai 21ain, yr oedd y gwasanaeth yn y Capel Mawr gyda'r Parch Nesta Davies yn gwasanaethu.

## Ymwelwyr di groeso



Beth i'w wneud pan gewch gannoedd o wenyn yn meddwl gwneud eu cartref yn y gwrych yn eich gardd. Yn ffodus roedd un wraig a'u gwelodd yn gwybod yr ateb, sef ffonio Justin ac Emma o Castle View Honey. Hwy oedd gan yr ateb gan ddod â chŵch gwenyn i ddenu'r frenhines a'r gwenyn iddo fel erbyn noswyl maent yno yn hapus ac yn cael eu cludo i ffwrdd ac yn gwneud y perchennog yn hapusach..


## ORGAN CAPEL BETHLEHEM LLANELWY

Yn anffodus mae Capel Bethlehem Llanelwy wedi gorfod cau ers tua blwyddyn a bydd yr adeilad wedi ei werthu unwaith y bydd y gofynion cyfreithiol wedi eu cwblhau.

Mae bron popeth wedi eu symud oddi yno i gartrefi newydd ond mae un peth o sylwedd yn dal ar ôl, sef yr organ sydd ar gael **yn rhad ac am ddim** i unrhyw un sydd â diddordeb ynddi. Fel y mae'r llun yn ei ddangos mae'r offeryn mewn cyflwr da ac mae hi'n gweithio'n ardderchog. Os oes unrhyw un yn dymuno ei chael, ac yn fodlon ei chludo oddi yno, cysylltwch am fwy o fanylion ag Idris Hughes ar 01745 583971 neu ar y cyfeiriad e-bost canlynol: hughes_idris@yahoo.co.uk




## Llongyfarchiadau




Llongyfarchiadau i Elenid Parry (10) a gafodd 1af yn yr Unawd Telyn dan 12 oed yn Eisteddfod Sir Dinbych (Rhanbarth) yr Urdd. Mae hi yn ddisgybl yn Ysgol Twm O'r Nant. Mi fydd yn cynrhychioli Sir Ddinbych yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri diwedd mis Mai. Pob lwc iddi.

# MAI DI DOR – RHOI RHYDDID I'CH LAWNT




Mae'n debyg fod nifer o'n darllenwyr wedi clywed am yr ymgyrch flynyddol "Mai Di Dor" ("No Mow May" yn Saesneg) ac efallai fod rhai ohonoch wedi bod yn rhan o'r ymgyrch eleni neu yn y gorffennol. Rhaid imi wneud yn glir o'r cychwyn nad ydw i yn arbenigwr ar y pwnc o bell ffordd, ac mi wna'i adael hynny i'r rhai fel criw gweithgar "Dinbych yn Blodeuo" a'u tebyg, sy'n llawer mwy gwybodus na fi.

Ymgyrch wedi ei threfnu gan yr elusen "Plantlife" ydy hon sy'n gofyn i bob garddwr sydd efo lawnt i beidio â thorri'r gwair yn ystod mis Mai. Dywedodd Ian Dunn, Prif Swyddog Gweithredol "Plantlife": "Mae newid radical mewn agweddau tuag at reoli lawnt ar y gweill ac mae er budd planhigion, peillwyr, pobl a'r blaned."

Y prif bwrpas yw rhyddhau lle i flodau gwyllt (chwyn yn ôl rhai!) gael llonydd i dyfu ac, yn eu sgil, pryfed beillio fel gwenyn a phili-pala. Yn ôl gwefan "Plantlife", (https://www.plantlife.org.uk/tag/mai-di-dor/?lang=cy)

"Dylech gymryd rhan oherwydd bod lawnt iach o fudd i fywyd gwyllt, yn mynd i'r afael â llygredd a hyd yn oed yn gallu cloi carbon o dan y ddaear." A dyma sydd gan Meg Griffiths i'w ddweud ar y wefan: "Mae Calan Mai, dathliad Cymreig yr haf ar Fai 1af, yn adfywio pwysigrwydd byw yn dymhorol ac yn ein hatgoffa ni bod ein bywydau ni bob amser wedi bod yn gysylltiedig â chylch blynyddol helaethrwydd planhigion."

Dydy hyn ddim at ddant pawb wrth gwrs, ac mae'n amlwg yn hollti barn garddwyr ac eraill, ond dwi wedi bod yn anghyffyrddus am rai blynyddoedd ynglŷn â defnyddio cemegolion i gadw'r lawnt acw mewn trefn, felly penderfynais wneud arbrawf bach eleni. Doeddwn i ddim am fentro peidio torri'r cwbl lot, felly dyma fynd ati i adael hirsgwar bach (tua 1 metr x 3 metr) heb ei dorri o ddechrau mis Mai ymlaen. Edrychaf ymlaen i weld sut mae'r arbrawf yn troi allan, gan obeithio gadael i'n darllenwyr gael gwybod yn y rhifyn nesaf.

Mae llawer mwy o bwyslais y dyddiau hyn ar warchod bywyd gwyllt drwy wahanol ddulliau er mwyn diogelu ein hinsawdd a'n hamgylchedd, ac mae nifer o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu'r agwedd bositif hon yn ddiweddar. Er enghraifft, mae Tîm Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ddinbych yn cynnal ei Wythnos Blodau Gwyllt gyntaf erioed o ddydd Llun, 5 Mehefin, ac eleni mae 129 o safleoedd yn cefnogi gwelliannau mewn bioamrywiaeth yn ogystal â'r gwarchodfeydd natur ar ymylon ffyrdd y sir. (Gweler lluniau sy'n dangos tystiolaeth o hyn yn Ninbych.) Mae hyn yn golygu y bydd ychydig dros 70 acer o ddolydd yn cefnogi ac yn diogelu natur yn lleol eleni. Mae gwahoddiad i'r cyhoedd ymweld â nifer o'r dolydd hyn, ac i gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at biodiversity@denbighshire.gov.uk

Os oes unrhyw un o'n darllenwyr wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch Mai Di Dor, beth am yrru lluniau ac ychydig sylwadau i gwybod@ybigwn.cymru? Byddwn yn hynod ddiolchgar i'w derbyn!

*John Davies*

(Hoffwn ddiolch i "Plantlife" am roi caniatâd i ni ddefnyddio'r poster "Rhoi Rhyddid i'ch Lawnt".)



Siop Clwyd
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a Chrefftau
siopclwyd@yahoo.co.uk

**Maldwyn Williams Ltd**
Garage Services

FFORDD Y RHYL, DINBYCH, SIR DDINBYCH, LL16 5TH

# Parthed: Cau Maldwyn Williams Cyf

Annwyl Gwsmer,

Rydw i'n ysgrifennu i gadarnhau, fel y byddwch chi wedi clywed o bosibl, y byddaf yn cau drysau'r garej am y tro olaf ddydd Gwener, 26 Mai, 2023.

Ar ôl bod mewn busnes ers dros 50 mlynedd, rydw i'n teimlo mai hwn yw'r amser iawn i gymryd cam yn ôl a mwynhau fy ymddeoliad.

Mae'n siŵr y gellwch chi ddychmygu, ni fu hwn yn benderfyniad hawdd, ond os na chymeraf i'r cam rŵan, wna i fyth.  Mae pethau wedi bod yn anodd ers y pandemig, ac er bod y busnes wedi parhau i ffynnu, rydw i wedi penderfynu ei bod hi'n bryd ymlacio a threulio amser gyda Netta a'r teulu – a phwy a ŵyr, efallai caf i aros yn fy ngwely ychydig hirach yn y boreau!

Fe fyddwn ni'n dal i gynnig profion MOT, ond ni fyddwn yn cynnig gwasanaeth trwsio cerbydau na thrwsio unrhyw beth fydd yn codi o'r profion MOT.

Dros y blynyddoedd, rydym wedi ffurfio perthynas waith dda iawn gyda garejis eraill sydd yn y dref, ac rydw i'n sicr y byddwch chi mewn dwylo da, pa bynnag garej fyddwch chi'n dewis ei defnyddio ar gyfer gwaith trwsio yn y dyfodol.

Felly, roeddwn i eisiau diolch i chi o waelod fy nghalon am eich cefnogaeth a'ch cwsmeriaeth dros y blynyddoedd, a dweud hwyl fawr am y tro.

Gan ddymuno'n dda i chi i gyd ar gyfer y dyfodol, ac eto – DIOLCH!

Dymuniadau Gorau

Maldwyn

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.


Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.


# Cornel y Plant

## Croesair Mistar Urdd


Rhowch y geiriau yn y croesair:


- dawns
- gwehyddu
- ymgom
- argraffu
- perfformio
- lluniadu
- print lliw
- pypedau
- llefaru
- unawd
- cystadlu
- ffasiwn
- canu
- deuawd
- print lliw
- band












# Bisgedi Sul y Tadau

**Cynhwysion**

225g blawd codi
100g menyn
110g siwgr
Croen wedi'i gratio a sudd hanner lemwn
1 wy
Eisin
Addurniadau (dewisol)

**Offer**

Ffwrn
Powlen i gymysgu
Rholbren
Gratiwr
Llwy bren
Hambwrdd pobi
Torrwr bisgedi
Rhidyll

**Dull**


1. Cynheswch y ffwrn i 180°C.
2. Cymysgwch y blawd a'r siwgr.
3. Rhwbiwch y menyn i'r cymysgedd.
4. Ychwanegwch sudd a chroen y lemwn. Yna ychwanegwch ddigon o ŵy i greu toes stiff.
5. Rholiwch y cymysgedd yn denau gyda'r rholbren a thorrwch i gylchoedd gan ddefnyddio torrwr neu dempled.
6. Rhowch y bisgedi ar hambwrdd pobi wedi ei iro a phobwch am 15 munud ar 180°C.
7. Gadewch i'r bisgedi oeri cyn eu haddurno gydag eisin ac addurniadau.



# Eisteddfod

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| p | th | e | f | l | e | p | a | l |
| o | r | h | ll | l | p | a | c | ll |
| u | r | dd | d | ch | l | b | t | e |
| c | ch | w | a | r | a | e | i | f |
| a | t | g | o | s | m | ll | o | a |
| n | t | p | h | w | y | l | m | r |
| u | dd | o | r | r | o | n | f | u |
| f | ff | r | i | n | d | i | a | u |
| c | y | s | t | a | d | l | u | f |

pabell — hwyl — actio
cystadlu — chwarae — canu
Urdd — ffrindiau — llefaru



# Llyfrgell Dinbych

Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar i groesawu awdur Cymraeg poblogaidd sef Haf Llewelyn, i Lyfrgell Dinbych nos Fawrth, Mehefin 19, am 7.00 o'r gloch. Mae Haf Llewelyn yn awdures nofelau i oedolion ac i blant, ac yn barddoni. Enillodd ei nofel Diffodd y Sêr wobr Tir na n-Og yn 2014.

Bydd yn sgwrsio am ei nofel newydd Salem. Cofiwch gysylltu i gadw lle, mae'r noson yn rhad ac am ddim fel rhan o Ŵyl Ganol Haf Dinbych.




Gwasanaeth benthyciadau Tabledi a Chrome Books

Os ydych am wella eich sgiliau digidol gellwch nawr fenthyg llechen neu lyfr crôm o'ch llyfrgell leol. Gellwch fenthyg dyfais am 6 wythnos a'i ddefnyddio i gael mynediad i gyrsiau ar-lein, pori'r rhyngrwyd, teipio CV, neu roi cynnig ar ein dewis eang o eLyfrau, llyfrau sain, cylchgronau digidol a phapurau newydd. Hefyd os oes anhawster cael cysylltiad i'r we gellir cael cymorth i gael mynediad i ddata/cysylltiad i'r we drwy fenthyg cerdyn sim yn y tabledi, neu gerdyn sim mewn dongle i ddefnyddio yn y Chrome Book.

Cysylltwch â ni os am fwy o wybodaeth neu os am fenthyca un o'r tabledi.



**Llyfrgell Jig-sô**

Os ydych wedi ymweld ag un o'n Llyfrgelloedd yn ddiweddar fe wyddoch fod posib benthyg jig-so nawr yn union fel benthyg llyfr. Maent wedi eu targedu ar gyfer oedolion ac yn amrywio o 35 i 1000 o ddarnau ac maent yn wych ar gyfer ysgogi'r ymennydd ac i ymlacio.

I gysylltu â ni ffoniwch 01745 816313

e-bost: llyfrgell.dinbych@sirddinbych.gov.uk






# Dinbych yn Blodeuo

Blwyddyn brysur arall i dîm Dinbych yn Blodeuo.





Blodau'r gwanwyn:



Dwy goeden Amelanchier a roddwyd i ni gan Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru i'w plannu yn Mharc Isaf:



Plannu blodau'r haf:



Prysurdeb y misoedd nesaf:
Mehefin 25, stondin blanhigion yn nigwyddiad Tŷ Gwyrdd yn Neuadd y Dref.
Gorffennaf, Beirniad *Cymru yn ei Blodau* yn ymweld â'r dref.
Medi 8, Seremoni Wobrwyo *Cymru yn ei Blodau* yn Neuadd y Dref, gyda 120-140 o bobl o bob cwr o Gymru yn dod i'n tref ni.
Diolch am yr holl nawdd, cyfraniadau a chefnogaeth!



# Difyrion Digidol
## Deion ap Rhisiart

Yn y golofn ym mis Ebrill, fe sgwennais am y diwrnod mawr hir-ddisgwyliedig yn adeiladu beic digidol yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy, Ynys Môn. Ac wedyn y cam naturiol wedyn oedd cyflwyno'r beic digidol cyntaf i gartref gofal lleol ac mi ddigwyddodd hynny ym mis Ebrill! Dyma fy argraffiadau o'r diwrnod.

Yr oedd yn ddiwrnod o gyffro ac o fwrlwm yng nghartref gofal Hafan Cefni, Llangefni ym Môn, pan ddaeth y cyfryngau i'r dre! Wrth dynnu fewn yn y maes parcio, gwelais fws mini Ysgol David Hughes wedi parcio, gyda Daron Harris a'i ddisgyblion yn aros i gario'r beic i fewn trwy'r drws. Yno hefyd oedd y cyflwynydd Gerallt Pennant a'i griw o Prynhawn Da. Roedd criw Prynhawn Da wedi dilyn y daith o'r cychwyn gan ffilmio'r adeiladu a rwan, i gyflwyno'r beic yn swyddogol. Yno hefyd yr oedd Simon Jones, fy nghydweithiwr, a fu'n ganolog yn cynorthwyo'r disgyblion gyda'i arbenigedd yn adeiladu'r beic ac yn datblygu beiciau digidol newydd yn y gogledd. Cawsom ein croesawu i'r adeilad gan y rheolwraig, Brenda Hughes a oedd yn wên o glust i glust. Roeddem wedi ymweld â'r cartref o'r blaen gyda'r beic digidol yn ôl yn 2019 reit cyn i'r pandemig daro ac yn sicr roedd hi'n falch i'n gweld eto. Roedd Brenda'n edrych ymlaen yn eiddgar at gael y beic yno'n barhaol ar ôl mwynhau'r ymweliad cyntaf. Trwy'r drws wedyn, y daeth y gohebydd Sion Pennar o BBC Cymru gyda'i ddyn camera yn barod amdani i holi ac arsylwi holl ddigwyddiadau'r dydd. Aethom â'r beic i gornel ystafell fawr braf a'i osod yno a dyna lle fydd cartref newydd y beic digidol a chyfle dyddiol i breswylwyr fynd am dro ar hyd llwybrau'r cof. Yr oedd criw sylweddol o'r preswylwyr wedi ymgynnull yn y lolfa gymunedol i dystio'r diwrnod pwysig a chael tro ar y beic. Seiriol Edwards o Gyngor Môn oedd y nesaf i gamu trwy'r drws – Seiriol oedd yn gyfrifol am dynnu Cyngor Môn i'r prosiect, diolch i berswâd fy nghydweithiwr Lon Moseley, gan addo talu am yr offer i adeiladu'r beiciau a'u rhoi at ddefnydd cartrefi preswyl yr Ynys. Wedyn, daeth dau o fenter gymdeithasol North Wales Recycle IT trwy ddrysau Hafan Cefni. Y nhw sydd yn garedig wedi rhoi'r gliniaduron am ddim i reoli'r beiciau.

Roeddwn yn teimlo fy mod mewn gig mawreddog, wrth i'r preswylwyr aros i wylio sêr y cyfryngau yn perfformio. Ond nid y nhw oedd y perfformwyr y tro hwn, ond y preswylwyr eu hunain heb os! A dyna fu.

Yn eu tro, cafodd y preswylwyr gyfle i fynd ar y beic tra bod disgyblion Ysgol David Hughes yn cynorthwyo, ac yn ennill ffrindiau newydd yn eu cwmni. Bu yna hel atgofion am blentyndod, digon o berlau, hwyl a difyrwch, wrth i un bedlo ar hyd strydoedd tref Biwmares. Norma, 91 oed, fu'n cofio y tirfeddiannwr Richard Bulkeley yn taflu ceiniogau poeth 'hot coins' o'r balconi yn y Bulkeley Hotel i blant tlawd fel Norma. Cofnod amhrisiadwy a phrin o hanes, diolch i'r beic am sbarduno'r atgofion. Cafodd sawl un gyfle i bedlo ar lwybrau'r cof a llifodd yr atgofion eto. Nesaf, daeth y darlledwr Al Huws a'i gynhyrchydd Tegwen o BBC Radio Cytmru i ymuno yn yr hwyl. A chafwyd rhagor o hel atgofion plentyndod ar y beic wrth ymateb i holi cynnes Al Huws.

Diwrnod arbennig yn llawn prysurdeb. Diwrnod i'w gofio mewn sawl ffordd. Diolch i bawb am eu cyfraniadau! Heb os, sêr y diwrnod oedd y preswylwyr a phleser oedd clywed hanesion cymeriadau annwyl Hafan Cefni. Ac wrth i'r beic ennill ei blwyf yn Hafan Cefni, bydd oriau lawer o fwynhad, hapusrwydd ac ymarfer corff yn cael ei dreulio yn dychwelyd i'r gorffennol.

Os hoffech wybod rhagor am y beic digidol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop

**Garej Ffowndri**
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482



PyBj
GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk



**Cynghorwyr Sir Ddinbych**
**Eich Cynghorwyr Plaid Cymru**



Rhys Thomas - Dinbych Isaf
Delyth Jones - Dinbych Caledfryn a Henllan
Elfed Williams - Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Mae ein manylion cyswllt i gyd ar safle wê y Cyngor Sir

# Ysgol Twm o'r Nant

Llongyfarchiadau mawr i Miss Enfys Jones ar enedigaeth mab bach. Croeso mawr i'r byd Celt bach. Edrychwn ymlaen at gael gweld eich dau yn dod am dro i'r ysgol i ni gyd gael rhoi cwtsh iddo.

**Uned dan 5**







Roedd cyffro mawr wrth i'r plant weld parc antur newydd sbon yn cyrraedd Ysgol Twm o'r Nant! Cafodd y plant brynhawn bendigedig yn dysgu sut i ddefnyddio'r offer yn ddiogel a gofalus.



Fel rhan o'n gwaith thema 'Y Jyngl' , mae'r dysgwyr wedi bod yn chwilio am anifeiliaid o'u dewis . Roeddynt yn mwynhau pori trwy lyfrau gwybodaeth ac ymchwilio ar y wê.

Rydym wedi bod yn dysgu sut i wneud pictogram o'r anifeiliaid welodd Ned ar ei wyliau yn y goedwig law. Bu'r plant hefyd yn arbrofi gyda chuddliw a pheintio wyneb am hwyl!



Yn ein gwersi mathemateg rydym wedi dewis ein hoff liw a chreu graff gyda gweddill y grŵp. Rydym wedi edrych ar y graff ac ateb cwestiynau amdano. Mae'r plant wedi bod yn pwyso, adeiladu rhifau, cyfri ac yn archwilio patrwm.


Yn ein gwersi iaith rydym wedi bod yn animeiddio ein gwaith, drwy ddisgrifio anifail o'r jungl. Cawsom hefyd gyfle i ysgrifennu rhestr o'r anifeiliaid sydd yn y stori 'Dwndwr yn y jyngl'.

J.H.Jones & Co
Cigydd Teuluol
01745 81 2132
92 Stryd y Dyffryn, Dinbych LL16 3BW

**Uned dan 7**





Ar ddechrau ein thema newydd 'Yn yr Ardd', bu'r plant am dro bach hyfryd i'r Ganolfan Arddio lleol, Green Fingers. Roedd y plant wrth eu bodd yn cael gweld yr amrywiaeth o flodau a phlanhigion oedd yno. Yn dilyn ein ymweliad, bu'r plant yn plannu blodau haul a pherlysiau yn yr ardd.



Maent wedi creu gwaith creadigol bendigedig wrth efelychu llun blodau haul yr artist Vincent Van Gogh hefyd.



Ynghlwm a'n thema Yn Yr Ardd, mae llawer o'r dysgu wedi bod yn yr awyr agored ac mae'r plant wedi cael modd i fyw yn chwilio am fywyd gwyllt yn yr ardd ac yn dysgu mwy am fyd natur. Mae dysgu am drychfilod bach sy'n byw yn yr ardd wedi bod yn uchafbwynt ein thema, yn enwedig wrth i ni ddilyn cylch bywyd y pili pala. Roedd gan y tri dosbarth bump lindys yr un ac yn ystod yr wythnosau diwethaf rydyn ni wedi bod yn gofalu drostyn nhw ac yn gwylio'r cylch bywyd natur yn digwydd o flaen ein llygaid ein hunain. Roedd yna gyffro mawr ymysg plant yr Uned wrth i'r pili palas ddod allan o'u chwiler. Braf oedd gweld ymteb a brwdfrydedd y dysgwyr. Rydyn ni wedi rhyddhau y pili palas allan i'r ardd a'u cynefin naturiol nhw erbyn hyn. Mae pawb yn edrych ymlaen i gael mynd ar drip ysgol i Pili Palas, Sir Fôn i ddathlu diwedd ein thema 'Yn yr Ardd'.









Mae’r plant wedi cael profiad o sawl gweithgaredd yn ymwneud â thema Y Celtiaid. Cafodd y plant hwyl yn peintio patrymau glas ar ei gilydd gyda phaent glas fel roedd y Celtiaid yn arfer gwneud.



**<u>Uned dan 9</u>**



Rydym wedi croesawu ymwelydd o gyfnod y Celtiaid i’r Ysgol. Daeth Miss Sian Davies wedi gwisgo fel y Brehines Buddug i mewn ac adroddodd lawer iawn o hanes y Celtaid. Roedd ganddynt ofn ei gweld yn ddynes mor frawychus a’i gwallt hir coch yr un mor fflamgoch â hi.







Daeth Catherine o Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych i gynnal gweithdy chwarae recorder gyda ni. Cafodd y plant gyfle i weld pob math o offerynnau chwyth ac roedd swn melodaidd iawn y recorder yn llenwi yr ystafelloedd dosbarth! Mae’r plant yn cael budd mawr o’r gweithgareddau hyn sydd yn cael eu ariannu eleni gan Llywodraeth Cymru. Braf yw cael gweld a chwarae’r offerynnau amrywiol.



Llongyfarchiadau mawr i Ifan Wood am ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth celf a chrefft yr Urdd Sir Ddinbych. Gwnaeth lun hyfryd o olygfa o dan y môr.



Bu Isac Martin yn cynrychioli yr Ysgol yng nghystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd yn Aberystwyth dros y penwythnos. Daeth y rhedwr cyflym yma yn ail drwy Gymru gyfan, Llongyfarchiadau mawr i ti Isac a diolch am ddod a dy fedal i ddangos i ni i gyd yn yr ysgol.
















Diolch i Gethin Rogers am ddod atom a chynnal gweithdy gweithgareddau chwaraeon. Mae'n rhoi blas i'r plant o'r hyn mae clybiau yr Urdd yn ei gynnig.

**__Uned dan 11__**

Wel yn wir ble i gychwyn? Am gyfnod arbennig yma yn yr Uned dan 11. Fel roeddwn i'n sôn y tro diwethaf am ein thema 'pencampwyr', mae dipyn wedi cyrraedd y brig yma, yn enwedig yn ein maes chwaraeon. Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed merched yr ysgol am ennill y twrnament ac am gael eu coroni'n bencampwyr Cymru yn y gystadleuaeth yn Aberystwyth. Hoffwn hefyd longyfarch y rhai fu wrthi'n rhedeg yn y râs Trawsgwlad. gyda Megan Jones yn ennill y gystadleuaeth merched blwyddyn 5 (ar ôl chwarae twrnament cyfan) ac yn y ras i fechgyn blwyddyn 6 i Riley Gallagher am ddod yn ail ac i Henry Jones am ddod yn gyntaf. Pencampwyr o fri! Hoffwn hefyd longyfarch y tîm merched pêlrwyd am gyrraedd y twrnament yn Aberystwyth. Roedd y gemau yn heriol, ond roedd y merched wedi chwarae yn wych, ac mae'n amlwg bod yr holl ymarfer yn talu!

Mae y tymor hwn wedi bod yn un diddorol iawn, wth i ni gael ymweliad gan Dr Karen Jones. Cawsom ddysgu am y galon ac am sut i'w chadw yn iach, ac yna cael gweld un go iawn! Roedd y disgyblion wedi gwirioni.



Er mwyn cadw'r galon yn iach aethon ni fel uned i faes chwarae Clwb



Criced Dinbych, lle roedd y disgyblion wrth eu bodd yn cael chwarae yn y rhwydi, ac ar gae criced 'anferthol' dwi'n siŵr bydd rhaid mynd eto yn o fuan.







Yn ddiweddar yma, cawsom ymweliad gan bencampwr byd enwog Mark Williams. Dysgodd Mark i ni am ei hanes yn curo record y byd gyda'i nofio a sôn pa mor bwysig ydi hi i ddyfalbarhau. Roedden ni wedi ein gwirioni gyda'r gorchudd goes, a'r holl batrymau oedd posib roi arni, ac rydym yn dymuno pob hwyl iddo yn Birmingham.



Diolch i bawb sydd wedi ymweld neu ein diddanu hyd yn hyn, fel rydych yn gweld mae'r profiadau, a gaiff y disgyblion yn dangos eu hôl.


## Atebion MAI 2023

**Ar Draws :**
8. Pentrefi
9. Odiaeth
10. Metr
11. Coelcerthau
12ac14. Penrhyndeudraeth
15. Amgrwm
17. Atodol
20. Astroleg
22. Ysgubo
23. Synfyfyrio
24. Cnaf
25. Coroni
26. Archesgob

**I Lawr :**
1. Negeseua
2. Stŵr
3. Llencyn
4. Direidi
5. Bonclust
6. Siartredig
7. Sesame
13. Rhagbrofion
16. Wylofain
18. Labrador
19. Agoriad
21. Swynol
22. Ymolchi
24. Cwsg

**Cofiwch** bod y llythrennau **ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh** a **th** yn mynd i un blwch

## CROESAIR MEHEFIN 2023



**I Lawr :**
1. Cymeriad
2. Golygfa i un cymeriad mewn drama
3. Nadu
4. Syrthio
5. Symudiad
6. Llwyth llong
7. Mae'n ffurfio'r ffîn rhwng Ceredigion a Sir Gaerfyrddin (4,5)
10. Rhwng Iau ac Wranws (6,6)
12. Ffrwyth sy'n tyfu ar balmwydden
15. Pendefigion
16. Trigain munud
17. Cynghorydd doeth yr hen Roeg
19. Llifo'n ffyrnig o losgfynydd
21. Cynnyrch corddi hufen
23. Oddi tan 25. Elfen, rhif 86
27. ... droed, ... fasged a ... foli

**Ar Draws :**
1. Cyfnewid am arian
4. Un sy'n perthyn i'r un blaid â Joe Biden
8. Ymaflyd codwm
9. Yn ymwneud â 10 i lawr
11. Dychrynllyd
13. Un o ddeuddeg disgybl
14. Llwybr a ddilynir gan ee 10 i lawr
16. Casgliad o hanesion
18. Un o haenau'r atmosffer
20. Brodor o ee India neu China
22. Taith awyren
24. Twymyn trofannol
26. Polyn hir, rhan o long
27. Ffynnon
28. Darnau bach o fara
29. Pennaeth cyntaf yr Undeb Sofietaidd




TE YN Y GRUG

Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
01745 816576

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# Ysgol Glan Clwyd

**Llwyddiant Maes Meddygaeth**
Ymfalchiwn yn llwyddiant tîim SES wrth iddynt ennill lle yn rownd 8 olaf trwy Gymru yng nghwis Her Meddygol Coleg Prifysgol Caerdydd.
Llongyfarchiadau mawr i Eryn Williams, Sonny Baxter a Sophia Griffiths, y tri ym mlwyddyn 10 a phob dymuniad da iddynt yn y rownd nesaf.

**Taith Alton Towers**
Wedi hir ymaros am gael taith ysgol, cafodd bl11 fynd i Alton Towers ar ddiwrnod olaf tymor y Gwanwyn. Roedd y daith wedi'i threfnu'n wreiddiol ar gyfer Gorffennaf 2022 ond oherwydd y tywydd anghyffredin o boeth a gafwyd bryd hynny bu'n rhaid gohirio'r daith. Cafwyd diwrnod cofiadwy, a phawb wedi cael amser wrth eu bodd.

**Sgio**
Aeth llond bws o ddisgyblion bl9-13 i'r Alpau ar daith sgio dros wyliau'r Pasg. Er iddynt fod yn anffodus o gael eu dal yn y trafferthion ym mhorthladd Dover cyn croesi am Ffrainc, da dweud eu bod wedi cyrraedd y llethrau'n ddiogel a chael mwynhau profiad sgio da oedd yn brofiad newydd sbon i'r mwyafrif ohonynt.



Ymweliad gan Bethan Gwanas
Bu rhai o ddisgyblion bl.7,8 a 9 yn ffodus iawn o gael bod yn rhan o sesiwn ddarllen efo'r awdures Bethan Gwanas yn ddiweddar. Diddorol iawn oedd clywed am sut aeth hi ati i ddechrau ysgrifennu ac mae nifer o'r disgyblion yn awyddus iawn i ddarllen mwy o'i nofelau.

**Dysgu Dulliau Adolygu**
Daeth cwmni *Learning Performance* atom i gyflwyno amryw o dechnegau adolygu i flwyddyn 11 cyn iddynt ddechrau ar eu TGAU cyn hir. Gwych oedd cael syniadau am ddulliau pwrpasol i helpu'r disgyblion baratoi at eu harholiadau.

**Grŵp Cefnogi Plant Milwrol**
Roedd mis Ebrill yn fis codi ymwybyddiaeth am blant sydd ag aelodau o'r teulu yn gwasanaethu gyda'r lluoedd arfog. Felly daeth y disgyblion hyn at ei gilydd i greu cyflwyniad am 'Mis y Plentyn Milwrol' i'w rannu gyda'r holl ddisgyblion yn y cyfnod cofrestru. Penderfynon nhw glymu rhuban biws o gwmpas 7 o goedd y cae chwarae i gynrychioli Plant Milwrol Ysgol Glan Clwyd. Bydd y grwp yn parhau i gyfarfod dros y misoedd nesaf.




Sêr Cynllun Seren
Llongyfarchiadau i Boas Davies, Manon Craddock a Cian Burgess am lwyddo i ennill dosbarth uchel am eu traethodau o fewn Cynllun Seren. Canmoliaeth iddynt am eu gwaith o safon uchel iawn!

**Chwarae yn Genedlaethol**
Llongyfarchiadau enfawr i Ben Senior, bl11 ar gael ei ddewis i chwarae i dîm pêldroed bechgyn ysgol Cymru. Rydym yn falch iawn o'i lwyddiant yn y maes. Mae Ben hefyd, fel y mae Lewis Jones ac Oliver Roe bl11 yn aelodau o sgwad Rygbi Gogledd Cymru dan 16. Go dda!

**Ffarwelio**
Dyna a wnaethom gydag ymadawiad Nerys Thomas sydd wedi bod yn aelod gweithgar o'r adran Technoleg ers nifer o flynyddoedd. Dymunwn yn dda iddi ar gyfer y bennod nesaf yn ei gyrfa.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i'n staff sydd wedi cael newyddanedig yn ddiweddar. Da deall fod teulu'r ysgol yn tyfu!

**Cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Sir Gâr**
Dymunwn yn dda i'n disgyblion fydd yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd ddiwedd y mis yn




HUW VAUGHAN JONES
Arlunydd, Cartwnydd

Dewis da o luniau du a
gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b.
Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig. Lluniau o bob maint

Cysylltwch â Huw ar
01745 812184

# Llongyfarchiadau mawr i Hana o Lanefydd am ennill y gadair yn Eisteddfod Ysgol Glan Clwyd. Dyma flas i chi o'i gwaith buddigol.

Llanw a thrai

Wrth i mi gamu ar y traeth mae'r tywod euraidd yn mynd yn syth rhwng bysedd fy nhraed. Mae pob cam ar y traeth yn fy arwain yn nes at yr atgofion nad ydwyf yn barod i'w hwynebu.

Mae sŵn hisian cyfarwydd y môr yn fy nghroesawu wrth i mi edmygu'r olygfa hefo'r haul yn machlud yn binc prydferth fel yr eisin ar ei chacen penblwydd olaf. Dydy lan y môr ddim yr un fath adeg yma'r dydd, dim cyffro, y môr yn rhy llonydd gan fod neb ynddo yn sblish sblasio. Er hynny mae yna dal ambell i gastell tywod yn brwydro am eu bywyd wrth i'r môr eu bwyta ddarn wrth ddarn. Adeiladu cestyll tywod oedd fy hoff beth i'w wneud ar ddiwrnod ar y traeth.

"Mam gawn ni fynd i lan y môr heddiw?" gofynnais un bore Sul tra roedden ni i gyd yn eistedd ar y soffa. Dechreuodd Bobi, Tara a Mali gyffroi wrth glywed y syniad. Atebodd Mam yn wên o glust i glust wedi gwirioni hefo'r syniad. Doedd 'na' ddim yn ei geirfa hi.

"Am syniad da Elen, Cer i nôl dy bwced a rhaw!" Roedd diwrnod allan i'r traeth fel teulu wastad yn syniad da ar ddiwrnod braf ers talwm. Pacio'r car yn llawn bwyd, tyweli, eli haul, rhawiau a bwcedi. Roeddwn i hyd yn oed yn mwynhau'r daith yn y car yn chwarae 'dwi'n gweld hefo fy llygaid bach i…' ar y lonydd cul. Cyrraedd a chamu allan o'r car i weld y traeth yn orlawn ar ddiwrnod braf o haf. Roeddwn i wastad yn ysu i redeg i mewn i'r dŵr yr eiliad roeddwn i'n camu ar y tywod, ond roedd mam yn mynnu ein bod ni ddim yn cael gwneud unrhyw beth heb roi eli haul yn gyntaf. Un felly oedd hi. Gofalu am bawb arall yn gyntaf.

Ar ôl gadael i ni fynd i chwarae roedd Mam yn gosod yr ymbarel a'r tyweli iddi gael torheulo, Dad a Bobi fy mrawd yn tyllu drwy'r dydd a Mali a Tara a minnau mewn ac allan o'r dŵr yn nofio ac yn adeiladu cestyll tywod. Wnaf i byth anghofio edrych i'r lan a gweld Mam yn gwenu fel giât wrth iddi ein gweld ni yn cael mwynhad allan o'r pethau symlaf mewn bywyd. Hi'n eistedd ar ei lliain streipiog piws a gwyn yn mwynhau hufen iâ, a ninnau bron â thorri ein boliau yn chwerthin pan roedd ganddi hufen iâ ar ei thrwyn. Roedd hi'n gwneud yn fawr o'r amser i ymlacio a darllen ei hoff lyfr 'Pluen' gan Manon Steffan Ross drosodd a throsodd. Dwi'n meddwl yn aml beth oedd mor arbennig am y llyfr hwn nad oedd hi'n diflasu arno.

Hiraethaf amdani bob dydd, yn enwedig ar y traeth, ble roedd hi ar ei hapusaf. Dydy dod yma ddim yr un fath hebddi. Dyna pam rydw i wedi dod yn hwyrach oherwydd credaf y byddai gweld teuluoedd eraill yn gwneud beth roedden ni'n ei garu fwyaf yn fy ngyrru yn nôl i'r twll tywyll o alaru. Cerddaf tuag at y siop hufen iâ i gael ei ffefryn, un sgŵp o hufen ia mefys hefo 'flake', fel boncyff coeden hynafol. Mae'n gwneud i mi deimlo'n agos ati a'r blas artiffisial yn fy nghysuro.

A'r siocled yn briwsioni cyn toddi yn fy ngheg. Pob man rydw i'n troi mae yna atgof gwahanol o'n dyddiau efo'n gilydd. Ein lle bach ni o dan y twyni tywod ynghanol y traeth yn ein cuddio ni rhag y byd go iawn. Y lle cyffredin o dywod sydd yn golygu dim i eraill, ond dyna lle 'dwi'n cofio gwylan yn trio dwyn hufen iâ Bobi, a ni i gyd yn chwerthin wrth iddo grio eisiau un arall.

Wrth i'r llanw ddod i mewn clywaf y tonnau yn rhuo wrth iddynt daro'r traeth. Mae'r holl atgofion melys yn llifo'n nôl ac mae'n f'atgoffa pam mai fama rydw i wedi dod i gofio amdani. Er hynny mae o hefyd yn f'atgoffa o realiti sefyllfa fy nheulu ers iddi fynd. Dydyn ni ddim yr un teulu.

Rydym ni'n deilchion hebddi. Hi y glud oedd yn cadw'r teulu'n un. Mae galar yn effeithio ar bawb yn wahanol ac mae gan bawb eu ffordd o ymdopi. Mae'n anodd dweud pryd fydd Dad yn barod i wynebu rhywbeth fel beth rydw i am ei wneud yma heno. Mae o'n cael diwrnodau da a drwg, sydd yn newid fel y tywydd. Dydy'r ffaith bod Tara wedi gadael a thorri cysylltiad ddim yn helpu.

Mi wnaeth hi symud i ffwrdd ar ôl i Mam farw llynedd.

Ar ôl cerdded ar hyd y traeth am dipyn rwy'n cyrraedd y pen. Safaf yn stond. Mae'r amser wedi dod. Rwy'n estyn fy mag yn ofalus, yr un wnaeth hi ei roi i mi ar fy mhenblwydd yn 21. Ei hoff fag hi o'r 80au, un lledr piws lafant. Rydw i wedi bod yn paratoi fy hun yn feddyliol am y foment yma drwy'r dydd. Mae'n rhaid i mi ollwng gafael. Rhaid mynd amdani, plymio i ddyfnder fy atgofion. Un, dau, tri… agoraf y cawg seramig du a thaflu ei llwch hefo fy holl nerth. Rwy'n ei gwylio hi'n mynd hefo'r awel tuag at yr haul sy'n araf suddo ar y gorwel ac yn gwaedu'n goch fel fy nghalon heno. O'r diwedd mae hi'n un efo'r lli'…

Ffug enw: Llwyd

**Emyr Evans** a'i Gwmni Cyf

Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333



Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900



Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk
JCB M-Hale Fendt




Band gwerin traddodiadol hwyliog sy'n cynnwys pedwar o gogie ac un lodes o Faldwyn!
Maent yn cyflwyno cerddoriaeth sy'n gyfuniad o'r hen a'r newydd yn plethu'r traddodiadol a'r gwreiddiol

CLWB RYGBI RHUTHUN
NOS WENER 14eg O GORFFFENNAF
Tocynnau - Siop Elfair 01824 702 575

TWMPDAITH
Mae Twmpdaith yn prosiect newydd sy'n mynd ag 8 o gerddorion a dawnswyr ifanc talentog o bob rhan o'r wlad ar daith o gwmpas Cymru yn cynnal twmpathau a nosweithiau llawen yn ystod haf 2023

Cefnogir gan: Supported by: Menter Iaith Sir Ddinbych

# Gwyl Rhuthun 2023
# TOP DRE
## Dydd Sadwrn
## 1af o Orffennaf
### Sgwâr San Pedr
### 1y.p. - 8y.h.

## Yws Gwynedd
## Candelas
## Alys Williams
## Y Welsh Whisperer
## Dawnswyr Gwyddelig
## Corau ac ysgolion lleol
## A llawer mwy!

**Mynediad -**
**Oedolion £5, plant am ddim**

Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorydd

# Mark John Young



Dinbych Isaf - Annibynnol

**Symudol: 07825 912554**

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk



# Lladd Gwair

Ydach chi wedi cyrraedd y cyfnod yna yn eich bywyd pan fo cyflawni un gorchwyl neu dasg y dydd yn ddigon i chi? Wel, heddiw fe wnes i dorri'r lawnt, wel tri darn o dir fawr mwy na'r stampiau newydd gewch chi ar eich llythyrau y dyddiau hyn. Gyda pheiriant trydan, wrth gwrs y cyflawnwyd y gwaith, ac ar ôl hynny doedd gen i fawr o awydd chwynnu'r borderi.

Fe wna i adael hynny tan yfory neu drennydd neu dradwy.

Mae gen i beiriant sydd ychydig yn drwm i'w wthio'n ôl ac ymlaen ar hyd y gerddi acw, a dydy'r mwsog sydd yn mynnu tyfu'n llechwraidd ddim yn gymorth i rywun nad ydy o'n arddwr wrth reddf.

Fe brynais i o yn ystod y cyfnod clo o siop lle nad ydyn nhw'n arddangos eu cynnyrch i'r byd a'r betws, ond yn hytrach yn dod â bocs o berfedd yr adeilad i chi. Dyfalwch enw'r siop honno. Dyna'r dasg i chi y tro hwn.

Nid wrth ei big y mae prynu cyffylog, yn ôl Daniel Owen, ac nid yw prynu dros y we yn d'eud wrth rywun am bwysau peiriant torri glaswellt.

Does ond gobeithio bydd un o ddau beth wedi digwydd cyn diwedd yr haf. Yn gyntaf, y byddaf wedi magu mwy o gyhyrau erbyn mis Awst, ac yn ail y bydd y mwsog wedi cilio o'r tir.

Mae gan y mab acw beiriant llawer ysgafnach, ond rydw i'n benderfynol nad ydy'r dihiryn styfnig – hynny ydy y peiriant nid y mab - yn mynd yn drech na fi. Mae o'n torri'n dda a byddai'n drist gadael iddo fynd hyd yn oed i gartref da.

Cofiwch chi rydwi wedi mynd yn eithaf diog yn ddiweddar. Fe es i dorri fy ngwallt ddoe. Oes, mae angen imi wneud hynny weithiau. Ar ôl hynny roeddwn i'n teimlo y dylwn eistedd i lawr mewn cadair gyffyrddus a chael paned a bisgedan.

Caiff mynychu dosbarth cadw'n heini yr un effaith arna `i, llawer o gicio ysgafn a chodi pwysau ysgfnach fyth yn y dosbarth ond fawr o gic wedyn.

Trueni nad ydw i fel y gŵr rhadlon hwnnw wnes i gyfarfod yn y dref – gwên lydan ar ei wyneb a mat dan ei gesail wrth iddo dd'eud gyda balchder, "Newydd fod mewn dosbarth yoga ydw i."

Henaint ni ddaw ei hunan efallai, ond yn ôl pob sôn y mae yna rai pobl ifainc yn fwy diog fyth. Mae'n well ganddyn nhw eistedd o flaen sgrin drwy'r dydd yn chwarae gemau cyfrifiadurol na chodi a mynd allan am awyr iach.

Gwell imi gyfaddef nad oeddwn i fawr gwell na nhw yn fy ieuenctid. Yn amlach na pheidio fyddwn i ddim yn codi tan hanner dydd, ac unwaith mae gen i gof aros yn fy ngwely tan chwarter i bedwar yn y prynhawn... a minna' yn berffaith iach!

MI fyddwn i'n hoffi ymdebygu i'r bobl hynny sy'n codi yn blygeiniol yn y bore gan fynd i nofio i'r pwll lleol neu fynd ar gefn beic ar hyd strydoedd bach y wlad cyn i bawb arall godi. Yr unig beth ydy' fedra i ddim reidio beic dros fy nghrogi ac rydwi fel sach o datws mewn dŵr.

Do, fe wnes fy ngorau i fynd ar gefn beic, ond bu'n rhaid rhoi gorau iddi ar ôl cael codwm neu ddwy wrth ddod i lawr yr allt serth ger fy nghartref.

Aflwyddiannus fu ymdrechion sawl un i'm dysgu yn y pwll nofio. Be' fedrwch chi wneud efo un sydd wirioneddol ag ofn dŵr?

Felly fu yna erioed fawr o awydd gen i godi'n gynnar, ac wedi'r cyfan fel y dywed yr hen ddywediad, "Bore pawb pan godo."

**Stan Lyall**

# Cyngerdd Mawr Boreol

gan Rob Evans

Erbyn hyn mae'r tymheredd wedi codi digon i mi gadw ffenest yr ystafell wely ar agor trwy'r nos. Fel fore godwr dw i'n deffro am bump bob bore, ia, dw i'n gwybod, dach chi ddim yn gyfarwydd â phump o'r gloch, nac ydach. Ond mae pump o'r gloch yn digwydd pob bore ac ym misoedd Ebrill a Mai mae'r awyr yn llawn o gerddoriaeth hollol naturiol – côr y wig!

Ond pwy sydd yn canu? Mae cân y fwyalchen yn hawdd adnabod, ond y lleill? Dros y blynyddoedd dw i wedi trio fy ngorau i adnabod y lleisiau, ac yn methu'n llwyr. Ond yn ddiweddar wnaeth fy ffôn ffyddlon farw yn sydyn ac roeddwn yn gwybod yn syth y byddai'n gorfod cael un newydd, un cymhleth ac un sydd yn llawer rhy fawr. Ffônau clyfar maen nhw'n eu galw nhw ac yn sicr maen nhw'n fwy clyfar na fi, hyd yn oed!

Roedd yr wythnosau cyntaf yn hunllef a'r peth yn chwarae tiwn trwy'r amser, ac am ddim rheswm. Roeddwn yn teimlo bod fy mywyd yn cael ei gymryd drosodd gan y ffôn. Mae o'n llawer rhy fawr i roi yn fy mhoced. A ninnau yn byw mewn amser pan mae popeth yn mynd yn llai.

Ac wedyn wnaeth ffrind ddweud wrtha i am 'apps'. Am be dw i eisiau 'app'? pethau hollol wirion ydyn nhw. Ond dysgais fod yna 'app' sydd yn gallu adnabod lleisiau adar! Yn well byth roedd o'n rhad ac am ddim. Mewn llai na munud roedd o ar y ffôn ac eisteddais i lawr yn yr ardd a throi o ymlaen. A dyma ni rhestr yn cael ei greu o'r holl adar oedd yn canu

Y Fronfraith fach a fawr, dryw, robin goch, titw o bob math, aderyn y to a'r berth, y dringwr bach, telor yr helyg, nico a melyn yr eithin. Mae yna drac sain ar gyfer bob aderyn ac mae hynny'n gwneud pethau'n haws. Mi fydd yn cymryd amser i adnabod pob un wrth gwrs ond mae dod i adnabod nhw yn rhoi pleser mawr i mi.

Dw i'n edrych ymlaen at bump bob bore ac wrth fy modd yn eistedd a chael cyngerdd. Cyngerdd byd natur.

Er mwyn cael yr un pleser defnyddiwch eich ffôn clyfar i adnabod sŵn yr adar sydd o'ch cwmpas.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
CYMRAEG
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

wefr heb Wifrau **AMGUEDDFA RADIO** Dilynwch ni ar flickr Cwmulus https://cwmulus.org/

**Darlith**

Faint ohonom ni sy'n gyfarwydd ag enw Augustus John? Arlunydd adnabyddus trwy'r byd ar un adeg, yn ôl Dr. D. Ben Rees, yn ei ddarlith "Cofio'r Arlunydd Augustus John: yn ei gynefin yng Nghymru ac yn Ninas Lerpwl" i ni yn ddiweddar. Ganwyd Augustus John yn Ninbych y Pysgod yn 1878 a chafodd yr hwb i beintio gan ei fam. Mynychodd yr ysgol gynradd leol, yr ysgol arlunio yn y dref, ac wedyn Ysgol Gelfyddyd Gain Slade yn Llundain, lle daeth ei ddawn i'r amlwg. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd niwed difrifol i'w ben wrth neidio o ben craig i'r môr a newidiodd hwn ei gymeriad a'i fywyd. Gwisgodd gap felfed o hyn ymlaen a dechreuodd ddilyn ffordd Fohemaidd o fyw. Yn 1895, daeth ei chwaer Gwen John, oedd yr un mor ddawnus ag yntau, i Ysgol Slade a bu'r ddau ohonynt yn peintio lluniau o bobl a golygfeydd. Ar ddiwedd ei gyfnod yn Ysgol Slade, roedd Augustus yn enwog am ei bortreadau a chafodd wahoddiad i fod yn ddarlithydd yn Ysgol Arlunio Prifysgol Lerpwl.

Ym Mhrifysgol Lerpwl, daeth Augustus a John Sampson, llyfrgellydd y Brifysgol, yn ffrindiau pennaf. Roedd John Sampson yn awdurdod ar y sipsiwn Cymreig a dysgodd siarad Cymraeg a'r iaith Romani-Gymraeg, ac yn hwyrach ysgrifennodd lyfr am Romani-Gymraeg. Bu Augustus yn ddarlithydd yn y Brifysgol o 1901 tan 1909, ac ar yr un pryd roedd yn un o artistiaid mawr y degawd. Ond, roedd yn anhapus iawn â'i fywyd cartref a phan fu farw ei wraig Ida (Nettleship gynt) wrth eni eu pumed mab yn 1907, dechreuodd Augustus ddilyn ffordd o fyw y sipsiwn a chrwydro o fan i fan gyda'i deulu estynedig, plant ei wraig a phlant ei feistres. Bu'n ymweld yn aml ag Abraham Wood a'i deulu, sipsiwn o Gymru, ac yn sgwrsio yn Romani-Gymraeg gyda nhw.



(Creative Commons Licence)
Augustus John 1909

Roedd Augustus wedi ei gyfareddu gan yr Arenig a bu ef a James Dickson Innes, arlunydd ifanc o Lanelli, yn peintio yno yn 1910-1912. Campwaith Augustus yn y cyfnod hwn oedd 'Llyn Tryweryn'. Derbyniodd lu o geisiadau i beintio portreadau o bobl enwog, David Lloyd George, Dylan Thomas, Lawrence o Arabia, James Joyce, W.B. Yeats a George Bernard Shaw yn eu plith. Erbyn y 1920au, Augustus John oedd prif bortreadwr y DU a derbyniodd nifer o anrhydeddau. Bu farw yn 1961. Erbyn hyn, mae ei waith i'w weld mewn orielau ar draws y byd, gan gynnwys Chicago, Efrog Newydd ac Awstralia ac, ynghyd â gwaith ei chwaer Gwen, yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Honnodd Dr. D. Ben Rees fod Augustus yn un o brif bortreadwyr y byd arlunio, a dylai fod mor enwog â Gainsborough.


Bydd Dr. D. Ben Rees yn traddodi'r ddarlith hon eto ar yr 17eg o Fehefin mewn gŵyl yn Lerpwl i gofio am Augustus John a John Sampson a drefnir gan Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Merswy. Croeso i bawb!



(Creative Commons Licence)
Cofgolofn Augustus John yn Fordingbridge

**Noson Gwis**

Cawsom Noson Gwis lwyddiannus unwaith eto o dan law feistrolgar Martyn, ein Cwisfeistr. Roedd y cystadlu yn frwd a hwyliog. Edrychwn ymlaen at yr ornest nesaf. Croeso i eraill ymuno â ni.




Ymwelwyr

Fe wnaeth dau Almaenwr ar eu gwyliau ymweld â'r Amgueddfa yn ddiweddar. Roedd Heiko a'i wraig wedi gweld ein gwefan ac wedi dod i Ddinbych yn unswydd i weld yr arddangosfa. Y diwrnod cynt roedden nhw wedi bod yn Amgueddfa Radio Watchet yng Ngwlad yr Haf. Mae gan Heiko gasgliad personol o 300 o hen radios Prydeinig a Rwsiaidd ac mae'n gobeithio agor amgueddfa breifat. Roedd o wrth ei fodd yma!

CATalyst Systems - 01745 816611 Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk

Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

**O'r casgliad**




Derbyniodd yr Amgueddfa'r copi hwn o glawr record 78RPM yn ddiweddar. Tybed a oes unrhyw un yn gwybod mwy am y siop yma yn Ninbych? Cysylltwch, os gwelwch yn dda.

**Y ddarlith nesaf**

Ar Fehefin 23ain, bydd Meleri Davies, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen, ac hefyd un o sylfaenwyr a Chyfarwyddwr ar Fwrdd Ynni Ogwen Cyf, a Chyfarwyddwr gydag Ynni Cymunedol Cymru, yn sgwrsio am **Ynni Ogwen**. Bydd yn trafod datblygiad y cynllun hydro o egin syniad i adeiladu a gweithredu'r cynllun ynni cymunedol a bydd yn amlygu'r buddion amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r cynllun.

Mae'r ddarlith yn agored i bawb ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i wefan **Cwmulus** neu dudalen Facebook **Gwefr heb Wifrau** i gofrestru ac i ddewis opsiwn cyfieithu ar y pryd os oes angen.

Ymweld â'r Amgueddfa

Mae'r Amgueddfa ar agor bob dydd Sadwrn, 11.00yb – 4.00 yp.
Os ydych am ymweld ar unrhyw adeg arall, cysylltwch â **gwybod@gwefrhebwifrau.cymru** i drefnu. Croeso cynnes i bawb.




Dyma radio Astrad, rhodd i'n casgliad ni rai blynyddoedd yn ôl, radio sy gan Heiko yn ei gasgliad yntau hefyd. Rhoddodd fanylion i ni am gefndir y radio – cynhyrchwyd yn Minsk, prifddinas Belarus, yn y 1980au, gan ddefnyddio cynllun Sofietaidd.




J&G Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS


Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:


- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
ACCA Cymraeg

GWASANAETH HURIO BEICIAU TRYDAN YN SIROEDD DINBYCH A CONWY
E-Beics LLAN E-Bikes
(wedi'w leoli yn Henllan)
Cysylltwch hefo DEWI: Ffôn:07788 270138
E-Bost:info@llanebikes.co.uk
Gwefan:llanebikes.co.uk







*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

Gorffwysfa, Ffordd Ystrad,
Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com

Plas Tirion, Kinmel Avenue,
Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com

www.rwrobertsandson.co.uk

Golden Charter Funeral Plans

National SAIF Independent Funeral Directors






## DINBYCH YN DATHLU'R DWBL

Am fis. Am dymor. Llwyddodd CPD Dinbych i ennill y dwbl eleni wrth iddyn nhw gael eu coroni yn bencampwyr Cynghrair Lockstock Ardal Gogledd Orllewin, yna gorffen y tymor drwy ennill Cwpan Ardal y Gogledd Cynghrair Lockstock. Enillodd y rheolwr Dewi Llion Jones y teitl Rheolwr y Mis am yr ail fis yn olynol hefyd mewn tymor sy'n sicr am fod yn rhan o lyfrau hanes y Clwb.

Daethon nhw o fewn trwch blewyn i ennill y triphlyg ond colli oedd eu hanes yng ngêm derfynol Tlws FAW Dragon Signs yn erbyn Trethomas Bluebirds o Gaerdydd yn y Drenewydd ddiwedd Ebrill. Roedd cefnogaeth anhygoel gan gefnogwyr y tîm gyda phedwar llond bws yn teithio i'r canolbarth. Yn dilyn hanner cyntaf digon siomedig, roedd y deheuwyr ar y blaen o 2-0, ac er i Ben Lockley sgorio yn yr ail hanner, doedd hyn ddim yn ddigon i sicrhau buddugoliaeth i Ddinbych.

Roedd yn rhaid i'r Tîm droi eu golygon yn ôl i'r Gynghrair wedi'r golled wrth iddyn nhw obeithio curo eu tair gêm oedd yn weddill o'r tymor er mwyn gorffen ar frig y tabl. Ymweliad â Llanrwst Utd oedd gyntaf ble daeth Dinbych oddi yno yn fuddugol o 3-1 gyda goliau gan Nathan Brown a dwy gan Craig Pritchard.

Daeth torf o 300 o bobl i Barc Canolog ar gyfer gêm gartref olaf y tymor yn erbyn Dyffryn Nantlle ble curodd Dinbych eu gwrthwynebwyr o 4-1 gyda dwy gôl gan Matthew Worrall ac un yr un i Craig Pritchard a Nathan Brown.

Ac yna gêm olaf y gynghrair. Roedd Bangor 1976, ar frig y gynghrair ac wedi chwarae eu gêm olaf wythnos ynghynt, ac felly roedd Dinbych yn gwybod eu bod angen gêm gyfartal er mwyn cipio'r teitl. Gêm oddi cartref yn erbyn Rhostyllen oedd gan Ddinbych ac wedi dwy gôl gynnar gan Matthew Worrall a Dan Parry Jones, fe lwyddodd Dinbych i ennill y gynghrair o 2-0.

Rasiodd y cefnogwyr ffyddlon ar y cae ar ddiwedd y gêm i ddathlu gyda'r chwaraewyr a pharhaodd y dathliadau tan oriau man y bore yn ôl yn Ninbych.

Wythnos yn ddiweddarach a daeth y cyfle i ennill y dwbl wrth iddyn nhw wynebu Bow Street o Aberystwyth yng Nghwpan Lockstock Ardal y Gogledd yng Nghaersws. Unwaith eto, daeth dros 400 o gefnogwyr brwd i gefnogi. 6-1 oedd y sgôr terfynol gyda goliau gan Paul Fleming (2), Matthew Worrall (2), Nathan Brown a Jake Walker.

Bu dathliadau mawr a'r tsiampên yn llifo! Cafodd Shon Powell, sef Cadeirydd y Clwb, ond sydd hefyd yn gweithio i gwmni Lockstock sy'n noddi'r gynghrair, y fraint o gyflwyno'r tlysau i'r capten Paul Fleming.

Dydi'r tymor heb ddod i ben i'r Ail Dîm eto wedi iddyn nhw gyrraedd rownd derfynol Cwpan FAW Cynghrair Yr Ail Dîm ble fydden nhw'n wynebu Ail Dîm Rhuthun. Wedi perfformiad arbennig yn erbyn Dyffryn Nantlle yn y gêm gynderfynol, rhoddodd Dan Clarke Ddinbych ar y blaen o 1-0 cyn i Kristian Pierce dderbyn cerdyn coch gan adael Dinbych gyda 10 dyn. 1-1 oedd hi erbyn y chwiban olaf ond fe enillodd Dinbych giciau o'r smotyn gydag arbedion anhygoel gan y gôl geidwad Daniel Jones a'r gic olaf o'r smotyn yn dod gan Harvey Bennett i fynd a thîm Liam Nash ymlaen i'r ffeinal.

Ar ddydd Sadwrn 13eg Mai, roedd Tîm Pêl-droed y merched (blynyddoedd 5 a 6) Ysgol Twm O'r Nant yn cymryd rhan yn nhwrnament pêl-droed cenedlaethol yr Urdd - yn cynrychioli Sir Ddinbych.

Dechreuodd eu taith i'r rownd derfynol yn ôl ym mis Chwefror pan fuont yn cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd Sir Ddinbych - gan ennill y twrnament i fynd drwodd i Rowndiau Terfynol Pêl-droed Merched Cenedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yn Aberystwyth.

Roedd 20 o ysgolion ledled Cymru yn cystadlu yng Ngwyl Gynradd yr Urdd yn Aberystwyth.

Enillodd Ysgol Twm O'r Nant y 4 gêm yn eu grŵp, gyda'r nifer mwyaf o bwyntiau posib.
Roedden nhw yn erbyn Ysgol Gynradd Whitchurch, Caerdydd yn y rowndiau chwarteri, gan guro 3-0. Y gwrthwynebwyr nesaf oedd Awel y Mynydd, Cyffordd Llandudno yn y rownd gynderfynol. Enillodd Twm O'r Nant y gêm yma hefyd 3-0.
Yn y rownd derfynol roeddynt yn erbyn Ysgol yr Hendre, Caernarfon. Roedd hi'n agos iawn, ond fe lwyddon nhw i ennill y gem 1-0.

Cawsant eu coroni yn Bencampwyr Merched Ysgolion Gynradd yr Urdd.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | | | 4 | | 9 | | | 1 |
| 5 | | | | | | 9 | 3 | |
| | | 9 | 8 | | 7 | | | 4 |
| 9 | | 8 | | | 3 | | | 6 |
| | | | | 7 | 8 | 3 | | |
| 1 | | 3 | 5 | 4 | | | | |
| | 2 | | | 6 | | | 7 | |
| | 4 | | | | | 2 | | |
| 7 | | 5 | 2 | | | | | 3 |

Diwrnod Gwobrau Clwb Rygbi Dinbych 20/05/23

Cafwyd diwrnod arbennig yn yr heulwen ar ddydd Sadwrn, 20fed Mai yn Seremoni Wobrwyo Clwb Rygbi Dinbych.
Braf oedd gweld cymaint o chwaraewyr o'n timau iau i'n timau hŷn yn dathlu'r tymor gyda llawer o hyfforddwyr, cefnogwyr, teuluoedd a ffrindiau yn mwynhau'r achlysur.

Yn gynnar yn y prynhawn cynhaliwyd seremoni wobrwyo'r timau iau ac yna roedd amser iddynt fwynhau'r *inflatables*, fan hufen iâ a pheintio wynebau. Am 2.30pm dechreuodd gêm olaf y tymor i dîm cyntaf Clwb Rygbi Dinbych, er gwaetha'r sgôr roedd hi'n gêm gyffrous iawn rhwng Dinbych a Nant Conwy. Llongyfarchiadau mawr i Nant ar ennill cynghrair y gogledd – adran 1.
Ar ddiwedd y gêm penderfynwyd tynnu llun 'Un Clwb' o aelodau a chwaraewyr CRD ar Faes Terry Bryer gyda drôn. Roedd hwn yn achlysur bendigedig i atgyfnerthu'r ffaith ein bod ni'n 'Un Clwb' gyda 200 o deulu CRD yn gwenu'n ddel yn y llun.

Am saith o'r gloch ar ôl llenwi eu stumogau â barbeciw blasus wedi ei baratoi gan Jane Jones roedd chwaraewyr y timau hŷn yn barod i dderbyn eu tlysau. Cyflwynwyd y seremoni gan ein Cadeirydd, David Haydock a diolchodd i bawb am drefniadau'r diwrnod.

I gloi'r dathliadau diddanwyd pawb gan Morgan Elwy a'i Fand, yn bendant terfyniad perffaith i ddiwrnod gwerth chweil.

Llongyfarchiadau enfawr i'r holl enillwyr, a diolch i bawb wnaeth gyfrannu at y diwrnod llwyddiannus.
Os hoffech chi ymuno â CRD fel chwaraewr, aelod, noddwr neu gefnogwr cysylltwch â thudalen 'Clwb Rygbi Dinbych' neu e-bostiwch secretary@clwbrygbidinbych.org

**Enillwyr Tlysau Clwb Rygbi Dinbych Tymor 2022-23**

Chwaraewr y Chwaraewyr / Tîm o dan 7 oed - Logan Jackson
Chwaraewr sydd wedi Gwella Fwyaf / Tîm o dan 7 oed - Mathew Mula
Chwaraewr yr Hyfforddwr / Tîm o dan 7 oed - Floyd Slater

Chwaraewr y Chwaraewyr / Tîm o dan 8 oed - Gwil Brown
Chwaraewr sydd wedi Gwella Fwyaf / Tîm o dan 8 oed - Gethin Jones
Chwaraewr yr Hyfforddwr / Tîm o dan 8 oed - Thomas Williams

Chwaraewr y Chwaraewyr / Tîm o dan 10 oed – Tomi Jones
Chwaraewr sydd wedi Gwella Fwyaf / Tîm o dan 10 oed – Tom Vaughan
Chwaraewr yr Hyfforddwr / Tîm o dan 10 oed – Ifan Hughes

Chwaraewr y Chwaraewyr / Tîm o dan 11 oed – Noah Plumb
Chwaraewr sydd wedi Gwella Fwyaf / Tîm o dan 11 oed – Guto Clayton
Chwaraewr yr Hyfforddwr / Tîm o dan 11 oed – Jac Ffrith Roberts

Chwaraewr y Chwaraewyr / Tîm o dan 12 oed – Alfie Green
Chwaraewr sydd wedi Gwella Fwyaf / Tîm o dan 12 oed – Harri Winning
Chwaraewr yr Hyfforddwr / Tîm o dan 12 oed – Jamie Williams

Chwaraewr y Chwaraewyr / Tîm o dan 15 oed – Tom Hogan
Chwaraewr sydd wedi Gwella Fwyaf / Tîm o dan 15 oed – Aron Prytherch
Chwaraewr yr Hyfforddwr / Tîm o dan 15 oed – George Roberts

Chwaraewr y Chwaraewyr / Tîm Ieuenctid – Efan Davies
Chwaraewr sydd wed Gwella Fwyaf / Tîm Ieuenctid – Aled Williams
Chwaraewr Mwyaf Ymroddgar / Tîm Ieuenctid – Callum Timson
Chwaraewr yr Hyfforddwr / Tîm Ieuenctid – Luke Jones
Tlws y Capten / Tîm Ieuenctid – Elias Mars Jones, Gethin Evans ac Efan Jones

Chwaraewr y Chwaraewyr / Yr Ail Dîm – Findlay Jenkins
Chwaraewr sydd wedi Gwella Fwyaf / Yr Ail Dîm – Dan Edwards
Chwaraewr Mwyaf Ymroddgar / Yr Ail Dîm – Nathan Maguire
Chwaraewr yr Hyfforddwr / Yr Ail Dîm – Dafydd Pierce-Evans

Chwaraewr y Chwaraewyr / Tîm Cyntaf – Dan O'Sullivan
Chwaraewr sydd wedi Gwella Fwyaf / Tîm Cyntaf – Elliott Davies
Chwaraewr Mwyaf Ymroddgar / Tîm Cyntaf – Robyn Cartwright
Chwaraewr yr Hyfforddwr / Tîm Cyntaf – Dan O'Sullivan

Tlws Coffa Tim O'Shea / Hyfforddwr y Flwyddyn – Osian Hedd Williams

Person Mwyaf Ffyddlon y Tymor – Beth Wyn Jones









CRD yn yr heulwen

Cefnogwyr iau CRD yn creu twnel i dîm cyntaf CRD cyn gêm Nant Conwy

Isaf dde

Chwaraewyr iau CRD yn mwynhau’r *inflatables*

Isod chwith

Dafydd Pierce-Evans yn derbyn tlws Chwaraewr y Flwyddyn, yr ail dîm





Nôl ym mis Ionawr bu nifer o nofwyr Dreigiau Ddinbych yn cystadlu yng ngala Rotherham Metro, gyda rasys yn cael eu cynnal dros 2 ddiwrnod yn y pwll 50 metr maint Olympaidd. Cynhaliwyd hwn yng Nghanolfan Chwaraeon Rhyngwladol Pond’s Forge, Sheffield. Roedd ein nofiwr ieuengaf yn 10 oed, a'r hynaf yn 17 oed. Enillwyd ychydig o fedalau, a gwellodd llawer o amserau personol.

Ym mis Chwefror cynhaliwyd gala Rhanbarthol Gogledd Cymru Nofio Cymru dros 3 diwrnod yn Llandudno. Cystadlodd naw o'r Dreigiau mewn 39 ras. Cafodd Eva Evans fedal arian ar gyfer y gystadleuaeth 800M Dull Rhydd i ferched 17+ hefyd gan gwella dros 3 eiliad oddi ar ei amser personol. Cafodd 6 safle arall yn y 10 Uchaf hefyd.

Roedd hi'n Fawrth prysur, gyda dwy gala i ni. Roedd Gala Menai a gynhaliwyd yn Llandudno ar Fawrth 5ed gyda 7 o'r Dreigiau yn cystadlu mewn 21 ras. Enillwyd nifer o fedalau, a pharhawyd i wella ar yr amserau personol.

Dilynwyd gyda Gala Gwanwyn Nofio Conwy ar 18 a 19 Mawrth ym mhwll 25M Llandudno. Roedd 11 o nofwyr yn cymryd rhan yn hyn, gan gynnwys 4 cystadleuydd newydd a gymerodd ran yn eu gala gyntaf – da iawn chi Molly (10), Kate (11), Catrin (15) a Caitlin (10). Cafodd Elenid Parry (10) 2 fedal - efydd yn y 50M pili-pala ac arian yn ei hymgais gyntaf ar 200M dull cefn.

Cafodd un o’n Dreigiau, Cerys Thomas (14), i nofio ym Mhencampwriaethau Cenedlaethol Nofio Cymru. Roedd hwn i'w gynnal dros wyliau'r Pasg ond cafodd ei ganslo oherwydd problemau gyda phyllau 50M Abertawe a Chaerdydd. Mae wedi cael ei ail-drefnu yn Lerpwl ar 20fed Mai. Anhygoel, da iawn i ti Cerys a phob lwc yn Lerpwl.




## Diwrnod hanesyddol yng Nghlwb Criced Dinbych

Sefydlwyd Clwb Criced Dinbych yn 1844 ac mae’r clwb wedi chwarae’n rheolaidd yn Ffordd Ystrad ers 1921. Mae llawer o gemau pwysig wedi eu chwarae ar y cae ond ar y 7fed o Fai gyda’r tywydd yn berffaith ar gyfer criced fe wnaeth trydydd (3ydd) tim criced Dinbych chwarae yn Ffordd Ystrad am y tro y cyntaf. Ac fe wnaethon nhw ennill o 67 rhediad!

Diwrnod balch iawn i’r clwb gan fod cael trydydd tim yn helpu datblygu hyder a sgiliau ieuenctid y clwb a hefyd gan fod Alys Evans wedi chwarae, yn 12 oed, hi ydi’r ferch cyntaf i chwarae i dim oedolion Dinbych yn y gynghrair.



Trydydd tim Dinbych (Alys sydd yn y blaen ar y chwith).



Nid Alys oedd yr unig ferch i chwarae criced i’r clwb y diwrnod hwnnw. Mae pedair aelod o Ieuenctid y Clwb - Gwen Lloyd-Davies, Flora Jones, Celyn Roberts a Leah Evans wedi bod yn mynychu yr Hwb MCC yn Ninbych. Fel rhan o fynychu’r Hwb cafodd y genod gyfle i chwarae yn erbyn tim o genod a fynychodd yr Hwb yn Lerpwl. Dyma lun o Celyn a Leah yn mynd i fatio!!



Llun 'Un Clwb' Clwb Rygbi Dinbych



Hyfforddwyr timau hŷn Clwb Rygbi Dinbych - Sion Edwards, Huw LLoyd Edwards, Glyn Jones, Eilir Jones, Geraint Madoc Jones, Russell Rowlands a Sam Jones.



Tîm ieuenctid Clwb Rygbi Dinbych



Ail dîm Clwb Rygbi Dinbych



Tîm cyntaf Clwb Rygbi Dinbych



Tîm o dan 7 oed Clwb Rygbi Dinbych gyda'u hyfforddwyr



Tîm o dan 15 oed Clwb Rygbi Dinbych



Beth Wyn Jones yn derbyn ei thlws – Person Mwyaf Ffyddlon y Tymor gan Llywydd CRD – Tegid Phillips



Chwaraewr sydd wedi Gwella Fwyaf - Y Tîm Ieuenctid – Aled Williams



Tîm o dan 11 Clwb Rygbi Dinbych



Tîm o dan 8 oed Clwb Rygbi Dinbych



Tîm o dan 12 oed Clwb Rygbi Dinbych



Robyn Cartwright yn derbyn tlws Chwaraewr Mwyaf Ymroddgar / Tîm Cyntaf

# C.P.D.




Chwaraewyr a chefnogwyr CPD Tref Dinbych ar ôl curo Rhostyllen yng ngêm olaf y gynghrair.



CadeiryddCPD DinbychShon Powell yn cyflwyno Cwpan Cynghrair Lockstock Ardal y Gogledd i'r capten Paul Fleming.





Jake Walker gyda'r gôl olaf i Ddinbych yn erbyn Bow Street.


Y rheolwr Dewi Llion Jones gyda'i dad, Iwan Jones (Trysorydd y Clwb) a'r mascot Caio Lloyd Jones ( mab Dewi)








hanes yr uchod ar dudalen 23



Elenid Parry



Eva Evans



Tîm y Dreigiau